



CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Epost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Ionawr 23 2018 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday January 23 2018 at 7pm.

Presennol/Present: Gareth Winston Roberts OBE (Cadeirydd/Chair), Meg Roberts, Liz Wood, Julie Hughes, Gerry Belanger, Mike Roberts, Gina Jones, Cyng/Cllr Richard Griffiths, Cyng/Cllr Richard Jones

Yn bresennol/In attendance: Hywel Hughes (Cyfieithu/Translation), Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk)

Ymddiheuriadau/Apologies: Myrddin Owens, Helen Hughes, Dafydd Roberts, Gordon Warren, Cyng/Cllr Aled Jones.

1 Croeso/Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gareth W Roberts OBE ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
The meeting was chaired by Gareth W Roberts OBE and all present were welcomed.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest

Neb/None

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynnig Liz Wood, eilio Meg Roberts.
The minutes were confirmed a true record. Proposed Liz Wood seconded Meg Roberts.

4 Materion yn codi/Matters arising

4.1 Heddlu Gogledd Cymru / North Wales Police

Daw ymateb gan yr heddlu yn cadarnhau bod pedwar uwch swyddog yn rhugl yn y Gymraeg yn ardal Mon. Bydd y Comisiynydd yng nghyfarfod mis nesaf.

A response from the police confirmed that there are four senior officers fluent in Welsh in the Anglesey area. The Commissioner will be attending next month's meeting.

4.2 Cae Chwarae Maes Llwyn Play Area

Cafwyd gadarnhad gan Richard Jones ei fod yn disgwyl ymateb gan Dafydd Rowlands (CSYM).
Richard Jones confirmed he was waiting on a reply from Dafydd Rowlands (IACC).

4.3 Cloc y Dref / Town Clock

Cafwyd ddiweddariad am y mynediad i Dwr yr Eglwys. Mae'n debyg bydd peth gwaith i'w gwblhau yn y dyfodol agos ond nid oes rhwystr ar hyn o bryd. Cadarnhaodd Liz Wood ei bod yn disgwyl mwy o brisau am y peirianwaith awtomatig.

An update was given regarding the access into the Church Tower. Some work is to be completed in the near future but there are no restrictions at present. Liz Wood confirmed that she is waiting on more quotes for the auto winder.

4.4 Craig y Don

Cafwyd ddiweddariad gan Liz Wood o'r sefyllfa bresennol, mae disgwyl i'r arolygwyr gwblhau eu gwaith ddiwedd mis nesaf gydag adroddiad i ddilyn yn fuan wedi hynnu.

Liz Wood gave an update of the current situation; the surveyors are expected to complete their work by the end of next month with the report to follow soon after.

4.5 Cinio Nadolig Cymunedol / Community Christmas Dinner

Roedd y digwyddiad yn lwyddiant. Diolchwyd i bawb oedd ynghlwm a'r prosiect.
The event was a success. All involved with the project were thanked for their efforts.

4.6 Mr Daniel ap Eifion Jones

Dim diweddariad / No update.

4.7 Fferm Arae Haul / Solar Farm

Fe ofynnodd Meg Roberts i Richard Jones pam ei fod wedi datgan diddordeb yn y cais yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol. Nododd Richard Jones ei fod wedi datgan diddordeb drwy gydol y broses gynllunio; roedd hyn oherwydd bod posib i'r ysgol gael budd ariannol yn sgil y prosiect.

Meg Roberts asked Richard Jones why he had declared an interest in the application due to his role as Chair of the School Governors. Richard Jones noted that he had declared an interest throughout the planning process; this being due to the possibility of the school gaining financially from the project.

4.8 Coeden Porth Amlwch Port Tree

Mar arbennigwyr CSYM wedi ymweld a'r goeden ac mae disgwyl eu hadroddiad ar ei gyflwr.
IACC's tree specialists have visited the tree and their report on its condition is expected.

5 Pwyllgorau a Chyrff Allannol/External Meetings and Organisations

5.1 Mynydd Parys Mountain

Mae 2018 yn gyfle i ddathlu 250 mlynedd ers darganfod copr ar y mynydd. Cafwyd wybod gan Mike Roberts bod nifer o unigolion wedi dod at eu gilydd i drafod gwahanol syniadau sut gall y dref ddathlu. Cytuno'n unfrydol dylai'r Cyngor Tref gyfrannu tuag at, ac arwain y dathlu. Cytuno mewn egwyddor i ofyn i'r Pwyllgor Cyllid am £2000 tuag at y gost o wneud a rhannu medalau copr ar ran y Cyngor Tref i holl blant ysgolion cynradd yr ardal – Amlwch, Rhosybol, Penysarn. Bydd cyfarfodydd eraill i'w cynnal i gytuno a threfnu gwahanol weithgareddau drwy'r flwyddyn megis cystadleuthau arlunio, sesiynnau hanes, teithiau tywys ac ati.

2018 is an opportunity to celebrate 250 years since the great discovery on the mountain. Mike Roberts informed the group that a number of individuals had come together to discuss various project ideas and how the town can celebrate. Agreed unanimously that the Town Council should contribute towards, and lead the celebrations. Agreed in principle to ask the Finance Committee for £2000 towards the cost of the Town Council producing and sharing copper medals to all the primary school children in the area – Amlwch, Rhosybol and Penysarn. Other meetings are to be held to agree and discuss other activities to take place throughout the year such as art competitions, history sessions, guided tours etc.

5.2 Fforwm Cyngorau Tref a Chymuned / Town and Community Councils Forum

Cafwyd adroddiad gan Gordon Warren yn ei absenoldeb, ac fe'i ddsbarthwyd copi i bawb oedd yn bresennol er gwybodaeth. Roedd cwestiwn yn codi ar syniadau CSYM o siapiau cymunedau. Cytuno bod cyfrifoldeb ar y Cyngor Tref i gwestiynnu cyfrifoldebau lleol ac o ganlyniad codi trethi lleol. Cytuno'n unfrydol ysgrifennu at Annwen Morgan yn amlinellu'r pryderon hyn. Diolchwyd i Gordon Warren am ei adroddiad.

In his absence, Gordon Warren had sent a report, and copies were distributed to those present. The IACC's ideas of 'place shaping' raised some questions. Agreed that it was the responsibility of the Town Council to question local responsibilities and the subsequent increase in local taxes. Unanimously agreed to write to Annwen Morgan outlining these concerns. Gordon Warren was thanked for his report.

5.3 Partneriaeth Cyngorau Gogledd Mon / North Anglesey Councils Partnership

Cafwyd amlinelliad gan Gareth Roberts o'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd gan y Bartneriaeth.

Cafwyd gyflwyniad gan uwch swyddogion gwastraff a datgomisiynnu Horizon. Cytuno bod angen edrych ar ol Ynys Mon a gogledd yr ynys yn benodol. Cytuno bod gwastraff lefel isel a canolig yn foddhaol tra bod y perdy yn cynhyrchu ond nad oedd y Cyngor am weld gwastraff lefel uwch ar y safle am flynyddoedd lawer. Wedi trafod yn ddwys, cytuno ysgrifennu a gofyn i'r gwastraff tanwydd yma gael ei symud o fewn 10 mlynedd o adael yr adweithydd. Byddai hyn yn rhoi amser i'r llywodraeth drefnu safle storio pwrpasol ar gyfer gwastraff niwclear.

Nodwyd bod cwmni teledu cenedlaethol o Siapan wedi ymweld a'r dref ac wedi cyfweld a rhai aelodau o'r bartneriaeth ynglyn a'r datblygiad.

Gareth Roberts gave an outline of the Partnership's last meeting. A presentation was given by Horizon's senior waste and decommissioning officers. It was agreed that Anglesey should be safeguarded, in particular the north of the island. Agreed that low and intermediate level waste on site was satisfactory whilst the power-station was generating, but the Council were strongly against having high level nuclear waste on site for many years. Having discussed in detail it was agreed to write and ask that this fuel waste be removed from site within 10 years form leaving the reactor. This would give the government time to develop a purpose built storage site.

It was noted that a Japanese national TV company had visited the town and interviewed some of the partnership members regarding the development.

5.4 Trefi Mon

Cafwyd grynodedb gan Gareth Roberts o'r hyn drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf. Mae'r cais am arian tuag at systemau CCTV y pum tref ar fin cael ei gyflwyno. Mae'r cais hefyd yn cynnwys camera symudol fydd i'w rannu gan y cymunedau. Gofynnwyd i'r tri cynghorydd sirol gefnogi'r cais.

Nodwyd bod y bartneriaeth wedi diogelu grant gan Llywodraeth Cymru (un o bedwar drwy'r wlad) er mwyn datblygu'r bartneriaeth a chydweithio'n bellach.

Gareth Roberts gave an overview of what was discussed at the last meeting. the application towards funding for the five towns' CCTV systems is due to be presented. The application also included a re-deployable camera to be shared between the communities. The three county councillors were asked to support the application.

It was noted that the partnership had been successful in securing funding from the Welsh Government (one of only four projects) towards developing the partnership and further collaboration.

6 Adroddiad Pwyllgor Cyllid/Finance Committee Report

Ni fu cyfarfod cyllid mis yma. Daw llythyr gan John Roberts (archwilyd mewnol) yn datgan ei fod yn ymddeol ac yn argymhell byddai Uned Archwilio mewnol Cyngor Gwynedd yn cwblhau'r gwaith. Cytuno'n unfrydol derbyn yr argymhelliant. Y clerch i gysylltu a Luned Fon Jones, pennaeth yr ardan.

There was no finance committee meeting this month. A letter from John Roberts (internal auditor) noted that he is retiring and recommended that the Internal Audit Unit at Gwynedd complete the work. Unanimously agreed to accept the recommendation. The clerk to contact Luned Fon Jones, head of the unit.

7 Materion Priffyrdd / Highway Matters

Mae parcio yn broblem mewn nifer o leoliadau ar hyn y bryd –

- Ger y Deintydd ar Stryd Salem – mae'r ardal yma angen sylw brys er mwyn diogelwch. Gofynnwyd i Richard Jones a Richard Griffiths gysylltu a'r swyddogion perthnasol ar fryder. Deallwyd bod y swyddogion yn disgwyl swmp o waith yn yr ardal, teimlai'r aelodau bod diogelwch y gymuned yn fwy pwysig.
- Parcio ger tai Stryd Salem – mae trigolion wedi cael tocynnau parcio am barcio tu allan i'w tai. Gofynnwyd i'r cynghorwyr sirol wneud ymholiadau am dynnu'r postiau fel bod mynediad i'r maes parcio o'r ddau gyfeiriad a hefyd newid yr arwydd y tu allan i'r tai preswyl. Mae'n debyg bod yr arwyddion a marciau ffordd wedi eu newid pan gafodd y lon ei wneud yn stryd un ffordd.
- Stryd Mona – mae'r warden barcio wedi bod yn brysyr yn y dref. Mae Richard Jones eisioes

wedi bod yn gwneud ymholiadau er mwyn diweddarau'r arwyddion tu allan i dai preswyl.

- Ysgol Gynradd – mae rhai rhieni yn datgan bod parcio am ddim yn y ddau faes parcio tra bod hebrwng plant yn ol a mlaen o'r ysgol, a bod hefyd hawl i barcio ar yr allt ac yn y gilfan bysiau gan nad oes bws ysgol mwyach. Cytuno cyylltu a CSYM i gadarnhau'r sefyllfa.
- Spar, Lon Goch – nodwyd bod angen ail-baentio'r blychau parcio ger y siop ar Lon Goch er mwyn helpu'r lorïau barcio i ddanfôn eu nwyddau. Cynghorwyr sirol i wneud ymholiadau a threfnu bod y gwaith yn cael ei wneud cyn gynted a phosib.

Parking is an issue at a number of locations at present –

- *By the Dentist on Salem Street – this area requires urgent action for road safety. Richard Jones and Richard Griffiths were asked to contact the relevant officers urgently. It was understood that the officers were waiting on a batch of work in the area; members felt that the safety of the community was more important.*
- *Residential parking on Salem Street – residents have been issued parking tickets for parking outside their homes. The county councillors were asked to make enquiries to remove the bollards to allow access into the car park from both directions, and also to change the signage outside the houses. It appears that the road markings and signage were changed when the road was made a one way street.*
- *Mona Street – the parking warden has been busy in town. Richard Jones has already made enquiries to update the signage outside residential properties.*
- *Primary School – some parents have stated that parking is free in both car parks during the school run, and that they can also park on the hill and in the bus layby as there is no school bus. Agreed to contact IACC to confirm.*
- *Spar, Lon Goch – it was noted that the parking spaces by the shop on Lon Goch should be re-painted to help the lorries to park when making deliveries. County councillors to make enquiries and arrange that the work is completed as soon as possible.*

8 Gohebiaeth/Correspondence

- 8.1** Daw llythyr gan bwyllgor Gwyl Nadolig Amlwch i gadarnhau pa bryd y maent yn cwrdd. Cytuno dylai Helen Hughes fynychu fel Cadeirydd y Pwyllgor Goleuadau Nadolig.

A letter received from the Amlwch Christmas Festival confirmed when they would be meeting. Agreed that Helen Hughes should attend as Chair of the Christmas lights Committee.

- 8.2** Cyngor Iechyd Cymunedol – Cadarnhawyd bod y wybodaeth wedi ei anfon i'r holl aelodau drwy ebost cyn y cyfarfod. Cytuno byddai'r Cyngor yn cefnogi opsiwn 3 bod meddygon sydd wedi'i cofrestrui weithio yng ngweddill y DU hefyd wedi eu cofrestru ac yn gymmwys i weithio yng Nghymru.

Community Health Council – it was confirmed that the information had been forwarded via email to all members prior to the meeting. Agreed that the Council support option 3 that doctors registered to work elsewhere in the UK are also registered and qualified to work in Wales.

- 8.3** Ymgynghoriad Canllawiau Strategaeth Toiledau Cyhoeddus – Cytuno mai gwasanaeth canolig yw darparu toiledau cyhoeddus ac mai'r Cyngor sir ddylai fod yn gyfrifol nid cynghorau tref a chymuned. Byddai hyn yn decach ar drethdalwyr wrth i'r costau gael eu rhannu dros ardal eang.

Consultation – Local Toilets Strategies Guidance – agreed that the provision of public toilets is a central service and should be provided by the County Council not the responsibility of the town and community councils. This would be fairer on all tax payers as the costs are shared between a larger population.

- 8.4** Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd – Cadarnhawyd bod y wybodaeth wedi ei anfon i'r aelodau cyn y cyfarfod. Nodwyd bod ymgynghoriad arall ar y gweill gan Horizon ynglyn a thir ychwanegol. Mae pobl wedi diflasu a cholli diddordeb yn yr holl ddogfennau a phapur.

Supplementary Planning Guidance Wylfa Newydd – it was confirmed that the information had been sent to the members prior to the meeting. It was noted that Horizon has another consultation ongoing regarding additional land. People have lost interest in the volume of documents and papers

9 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

9.1 Baw Cwn / Dog Fouling

Mae'r broblem yn gwaethygu yn y dref. Cytuno cysylltu a CSYM i ofyn iddynt dargedu'r ardal ac i swyddogion Kingdom hefyd ymweld yn rheolaidd. Cytuno gosod posteri yn y siopau yn y dref yn nodi bod y Cyngor Tref yn cydnabod y broblem ac wedi gofyn i swyddogion ymweld a'r adral.

The issue is getting worse in town. Agreed to contact IACC to ask them to target the area and for Kingdom's officers to also visit the area on a regular basis. Agreed to place posters in the shops around town noting that the Town Council acknowledges the problem and have asked officers to visit the area.

9.2 Canolfan Hamdden / Leisure Centre

Nododd Meg Roberts ei phryderon ynglyn a dyfodol y ganolfan, a'r defnydd o neuaddau'r ysgol uwchradd. Mae'n debyg bod mwy a mwy o bobl yn defnyddio adnoddau'r ysgol yn hytrach na'r ganolfan hamdden gan eu bod yn rhatach i'w llogi. Ar un adeg nid oedd posib llogi cyfleusterau'r ysgol ac fe ofynnodd Meg Roberts pan fod y rheolau wedi newid. Roedd Meg Roberts yn bryderus byddai'r ffigyrau defnydd y ganolfan yn disgyn a'r adeilad yn cau. Roedd hefyd pryderon am Gemau'r Ynysoedd ac adnoddau newydd yn cael eu datblygu, o bosib ar gost adnoddau Amlwch. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu a gofyn am ffigyrau defnyddwyr y ganolfan hamdden dros y flwyddyn diwethaf ac incwm y ganolfan. Bydd trafodaeth pellach ar y mater yn y cyfarfod nesaf gyda'r eitem i'w gynnwys ar yr agenda.

Meg Roberts noted her concerns regarding the future of the centre, and the use of the school's gymnasiums. It appears that more and more people are using the school's resources rather than the leisure centre as they are cheaper to hire. At one time it was not possible to hire the school's facilities and Meg Roberts asked why the rules had been changed. Meg Roberts was concerned that the usage figures for the centre will drop and the facility will close. There were also concerns regarding the Island Games and new resources being developed, possibly at the cost of Amlwch facilities. The clerk was asked to contact asking for usage figures for the leisure centre over the last year, and the centre's income. Further discussion will take place at the next meeting where the item is to be included on the agenda.

9.3 Safle Rhosgoch Site

Mae si bod CSYM yn ffafrio safle Land and Lakes yng Nghaerdybi ar gyfer llety dros dro. Cadarnhawyd bod y Cyngor Tref o blaid datblygu safle Rhosgoch os oedd y cwmni am rannu eu llety dros dro dros ddau safle. Mae nifer fawr yn gwrthwynebu 4000 o bobl ar un safle yng Nghemaes, ac am weld Safle Rhosgoch yn cael ei ddatblygu er mwyn creu swyddi i bobl leol yn sgil y datblygiad yn Wylfa Newydd, byddai datblygu'r safle hefyd yn golygu gwelliannau i'r lon. Mae pryderon am sut mae Horizon yn bwriadu rheoli 4000 o bobl ar y safle, a'r effaith mae hyn am ei gael ar yr ardal leol. Pa fudd sydd i'r cymunedau lleol yng ngogledd yr ynys?

There are rumours that IACC are favouring Land and Lakes in Holyhead as a site for temporary accommodation. It was confirmed that the Town Council was in favour of developing the Rhosgoch site if the company was to share temporary accommodation between two sites. Very many people object to having 4000 on one site in Cemaes, and wish to see Rhosgoch developed in order to create jobs for local people in line with Wylfa Newydd; developing the site would also include road improvements. There are concerns how Horizon are proposing to control 4000 people on site, and the impact on the local area. What benefit is there for the local community in north Anglesey?

Carreg Coffa / Memorial Plaque

9.4 Cytuno byddai'r Cyngor yn talu am osod carreg coffa i gydnabod 100 mlynedd ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd y garreg i'w gosod yn y Neuadd Goffa gan mai yma mae Cofeb y dref. Bydd y garreg yn rhan o brosiect mwy sydd yn cael ei drefnu gan y Lleng Brydeinig fydd yn gweld pabi coch a piws ledled y dref. Nododd Julie Hughes bod #Caru Amlwch yn ceisio am grant i gael datblygu prosiect gyda plant yr ardal i gyd fynd a Sul y Cofio.

Agreed that the Council would pay for a memorial plaque to commemorate 100 years since the end of the First World War. The plaque would be located at the Memorial Hall as this is where the Town's war Memorial is located. The plaque will be part of a bigger project organised by the British Legion which will see the red and purple poppy throughout the town. Julie Hughes noted that

#CaruAmlwch are applying for a grant to develop a project with the children to correspond with Remembrance Sunday.

10 Dyddiad y cyfarfod nesaf/Date of next meeting

*Bydd y cyfarfod nesaf i'w gynnal Nos Fawrth Chwefror 27 2018 am 7 o'r gloch yn Siambr y Cyngor.
The next meeting will take place on Tuesday February 27 2018 at 7pm in the Council Chamber.*

Bu'r cyfarfod orffen am 20.20 / The meeting closed at 20.20.

Arwyddwyd / Signed:

Gareth Winston Roberts OBE (Cadeirydd / Chair)